

| Cynnig Gwasanaeth Oriau Dydd i bobl ag anabledd dysgu | |
|---|---|
|   | Bydd y Cabinet yn cwrdd ddydd Mawrth 20 Gorffennaf. |
|  | Bydd yn trafod argymhelliad i'r Cyngor siarad eto â phobl ag anabledd dysgu, eu teuluoedd a'u cynhalwyr, staff a phartneriaid. |
|  | Mae hyn er mwyn i chi allu dweud eich dweud am wasanaethau'r dyfodol a helpu i feddwl am syniadau ar y cyd er mwyn cynyddu buddsoddiad a gwella gwasanaethau |

| | |
|---|---|
|  | Mae adroddiad gan swyddog wedi dangos bod angen i Wasanaeth Oriau Dydd y Cyngor wella a symud tuag at fodel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a'r gymuned yn hytrach na'r darpariaeth 'canolfan oriau dydd' draddodiadol |
|  | Bydd hyn yn cynnig rhagor o ddewisiadau i bobl sydd ag anableddau dysgu trwy ddarparu cyfleoedd oriau dydd sy'n eu helpu i fod mor annibynnol â phosibl. |
|  | Mae'r adroddiad hefyd yn nodi rhai o'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor yn sgil pandemig COVID-19, yn ogystal â llifogydd y llynedd. |

| | |
|---|---|
|  | Mae Gwasanaeth Oriau Dydd y Cyngor yn cynorthwyo tua 355 o oedolion sydd ag anabledd dysgu, eu teuluoedd a'u cynhalwyr. |
|  | Mae anghenion cymorth yn wahanol iawn i bawb. Weithiau bydd angen ychydig o gymorth ar unigolyn ond weithiau mae gan unigolion anghenion cymhleth hefyd. |
|  | Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu mewn tair canolfan oriau dydd fawr yn y Gadlys, Trefforest a Llwynypia, 11 canolfan oriau dydd yn y gymuned fach a safleoedd mewn gweithleoedd. |

| | |
|---|---|
|  | Yn ystod y pandemig mae sawl cyfarfod wedi'u cynnal â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau oriau dydd er mwyn dysgu o'u profiadau trwy gydol y pandemig ac er mwyn llywio opsiynau'r dyfodol. |
|  | Nododd yr adborth a gafwyd fod pobl sydd ag anabledd dysgu, eu teuluoedd a'u cynhalwyr yn gwerthfawrogi'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu |
|  | Dangosodd hefyd yr angen i roi rhagor o bwyslais ar gynorthwyo ac annog unigolion i wneud eu dewisiadau eu hunain a chynnig cyfleoedd iddyn nhw. |

| | |
|---|---|
|  | Cynnig gweithgareddau ystyrlon yn y gymuned, gan gynnwys cyfleoedd cyflogaeth sy'n hyrwyddo annibyniaeth, cynhwysiant cymdeithasol a deilliannau cadarnhaol. |
|  | Os bydd y Cabinet yn cymeradwyo'r cynllun ar 20 Gorffennaf. |
|   | Bydd strategaeth ddrafft yn cael ei llunio ar gyfer y dyfodol, fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ac yna penderfyniad terfynol gan aelodau'r Cabinet. |

| | |
|---|---|
|   | Mae'r adroddiad hefyd yn argymell bod Canolfan Oriau Dydd Trefforest yn parhau i aros ar gau oherwydd y difrod i'r ganolfan yn ystod y llifogydd. |
|  | Bydd angen gwerthuso'r sefyllfa ymhellach pan fydd y strategaeth ddrafft yn cael ei chyflwyno i aelodau'r Cabinet. Bydd y Strategaeth Gwasanaethau Oriau Dydd yn cael ei chyflwyno i aelodau'r Cabinet yn y dyfodol. |